CYHOEDDIAD

# Cyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg: 14 Hydref 2021

Cofnod o gyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg ar 14 Hydref 2021.

Cyhoeddwyd gyntaf: 14 Ebrill 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 14 Ebrill 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-14-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Pwyntiau gweithredu


| Yn bresennol | Rôl |
|---|---|
| Jeremy Miles AS | Gweinidog y Gymraeg ac Addysg |
| Rhodri Llwyd Morgan | Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg |
| Enlli Thomas | Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg |
| Simon Brooks | Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg |
| Angharad Mai Roberts | Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg |
| Rosemary Jones | Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg |
| Dyfed Edwards | Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg |
| Dafydd Hughes | Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg |
| Lowri Morgans | Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg |
| Meleri Davies | Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg |
| Rhys Jones | Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg |


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-14-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| **Yn bresennol** | **Rôl** |
|---|---|
| Andrew White | Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg |
| | Adran Ystadegau, Llywodraeth Cymru |
| | Adran Ystadegau, Llywodraeth Cymru |
| Dr Ioan Matthews | Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol |
| Gwenllian Griffiths | Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol |
| Bethan Webb | Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru |
| (Ysgrifenyddiaeth) | Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru |
| (Ysgrifenyddiaeth) | Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru |
| Aelodau staff Is-adran y Gymraeg (Arsylwi'n unig) | Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru |

## Ymddiheuriadau

| **Ymddiheuriadau** | **Rôl** |
|---|---|
| Rhian Huws Williams | Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-14-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Eitem 1: croeso gan ddirprwy gyfarwyddwr is-adran y Gymraeg

Croesawyd pawb gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Is-adran y Gymraeg i gyfarfod y Cyngor Partneriaeth.

## Eitem 2: diweddariad data

Trosglwyddwyd yr awenau i un o swyddogion Llywodraeth Cymru i roi diweddariad ar ddata ym maes y Gymraeg.

## Eitem 3: diweddariad ar y proffiliau iaith fesul awdurdod lleol

Cafwyd diweddariad gan un o swyddogion Llywodraeth Cymru ar y gwaith sydd wedi'i wneud yn ddiweddar ar y proffiliau iaith fesul awdurdod lleol.

### Cam Gweithredu 1

Ysgrifenyddiaeth i anfon copïau o'r cyflwyniad at yr Aelodau ar ôl y cyfarfod.

### Cam Gweithredu 2

Swyddogion Ymchwil i ddarparu data ôl-16, gan edrych ar ddilyniant o addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol i addysg bellach ac addysg uwch.

### Cam Gweithredu 3

Ysgrifenyddiaeth i anfon dolen at y proffiliau iaith at yr aelodau i holi am adborth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-14-hydref-2021-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ar y cynnwys / i nodi unrhyw fylchau.

## Eitem 4: sgwrs gyda chyfarwyddwr addysg a’r gymraeg, Llywodraeth Cymru

Cafwyd diweddariad gan Gyfarwyddwr Addysg a’r Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru. Bu’n trafod ei weledigaeth ar gyfer y swydd a bu Aelodau’n cynnig sylwadau ac yn holi cwestiynau.

## Egwyl

[Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn ymuno â’r cyfarfod ac yn cymryd y gadair]

## Eitem 5: gair o groeso a diweddariad ar y rhaglen waith

Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, i rith-gyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg.

Cafwyd diweddariad gan y Gweinidog ar y Rhaglen Waith.

## Eitem 6: y cynllun tai cymunedau Cymraeg

Symudodd y Gweinidog ymlaen at yr eitem nesaf gan droi i edrych ar y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.

Dyma rai o’r materion a godwyd gan Aelodau:

- bydd angen i effeithiau COVID-19 a Brexit ar y maes fod yn ganolog yn ein meddyliau, yn enwedig wrth ddadansoddi canlyniadau’r Cyfrifiad pan fyddant ar gael a bydd hyn yn effeithio ar ein polisi addysg ac ati
- nododd un Aelod bod entrepreneuriaeth yn allweddol i hyn a bod datblygu cymunedau mentrus yn rhan fawr o’r ateb
- nodwyd bod angen helpu cymunedau i brynu tai i’w gosod i bobl leol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-14-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- nodwyd bod y syniad o greu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol yn hanfodol
- nodwyd bod yr egwyddor o roi cyfle i bobl leol neu fentrau cymdeithasol yn unig i gael cyfle i brynu eiddo cyn agor y farchnad i eraill yn un pwysig

## Eitem 7: diweddariad ar y maes Ôl-16

Cafwyd diweddariad ar y maes Ôl-16 gan Dr Ioan Matthews a Gwenllian Griffiths o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

- Cafwyd trafodaeth ar ddenu myfyrwyr i astudio'n Gymraeg ac ar ddatblygu'r gweithlu a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cyfeiriwyd at rwydwaith SEREN: er bod yna rai pryderon am y gwaith hwn, mae'n gyfle pwysig i gadw cysylltiad gyda myfyrwyr. Nodwyd bod angen edrych ar sut mae cysoni nodau'r prosiect.
- Cafwyd trafodaeth hefyd am brentisiaethau.

### Cam Gweithredu 4

Ioan Matthews i rannu rhai adnoddau codi ymwybyddiaeth gydag Aelodau i geisio eu hadborth arnynt.

## Eitem 8: unrhyw fater arall

Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.

Diolchodd y Gweinidog i'r Aelodau am eu hamser, eu cefnogaeth ac am eu gwaith.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-14-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Pwyntiau gweithredu

| | Pwynt gweithredu | I bwy? | Erbyn pryd? | Wedi cwblhau? |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ysgrifenyddiaeth i anfon copïau o’r cyflwyniad at yr Aelodau ar ôl y cyfarfod. | Ysgrifenyddiaeth | Wedi’u hanfon ar 10 Chwefror 2022 | √ |
| 2. | Swyddogion Ymchwil i ddarparu data ôl-16, gan edrych ar ddilyniant o addysg cyfwng Cymraeg yn yr ysgol i addysg bellach ac addysg uwch. | Swyddogion Ymchwil | Diweddariad wedi’i anfon ar 10 Chwefror 2022 | √ |
| 3. | Ysgrifenyddiaeth i anfon dolen at y proffiliau iaith at yr Aelodau i holi am adborth cynnwys / i nodi unrhyw fylchau. | Ysgrifenyddiaeth | Wedi’u hanfon ar 10 Chwefror 2022 | √ |
| 4. | Ioan Matthews i rannu rhai adnoddau codi ymwybyddiaeth gydag Aelodau i geisio eu hadborth arnynt. | Ioan Matthews, Coleg Cymraeg Cenedlaethol | Wedi’u hanfon ar 10 Chwefror 2022 | √ |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-14-hydref-2021-html** i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Cyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg: 14 Hydref 2021** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-14-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-14-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.